



Gwefan  
www.ysgolgymraeg.com

e-bost  
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dyfarnwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009  
*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

### EISTEDDFODAU

**Eisteddfod Ysgol – Mawrth 4ydd** - Yn ystod y tymor mi fydd yr ysgol yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod ysgol ac Eisteddfodau'r Urdd. Yn yr Eisteddfod ysgol mi fydd pob plentyn yn cael cyfle i berfformio mewn partion canu a llefaru ac i ganu a llefaru yn unigol yn y rhagbrofion. Mi fydd yr Eisteddfod ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd i'r disgylion gymryd rhan mewn gweithgareddau celf, llawysgrifen, offerynnol, llenyddiaeth a chyweithiau. Mi fydd cyfle hefyd i holl ddisgyblion ganu yng nghôr y tŷ lle fydd plant Arthur, Caradog a Dewi yn canu mewn tri chôr gwahanol.

Cynhelir rhagbrofion ar gyfer cystadlaethau unigol yr Eisteddfod Ysgol yn ystod yr wythnos fydd yn dilyn hanner tymor – Offerynnol – dydd Mawrth, Mawrth 1af a'r Canu a'r Llefaru ar ddydd Mercher, Mawrth 2ail. Mi fydd pawb yn cael cyfle i gymryd rhan yn y rhagbrofion ac fel arfer mae'r beirniad yn dewis un o bob tŷ i ymddangos ar y llwyfan ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Mi fydd y beirniad hefyd yn dewis un o bob tŷ i fod wrth gefn rhag ofn fydd rhywun yn sâl.

**Eisteddfod yr Urdd** - Mae'r ysgol yn annog disgylion i gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd – mi fydd croeso i ddisgyblion gystadlu yn unigol mewn gwahanol gystadlaethau llwyfan a gwaith cartref. Gan nad yw pob plentyn yn dymuno cystadlu yn unigol rydym hefyd yn paratoi grwpiau / corau i gynrychioli'r ysgol. Wrth ddewis disgylion ar gyfer gwahanol weithgareddau megis côr, grŵp llefaru, grwpiau dawnsio, cân actol, cerddorfa, ymgom mi fyddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau tegwch i bawb. Ein nôd yw sicrhau fod pob plentyn sy'n dymuno cynrychioli'r ysgol yn cael cyfle i wneud hynny mewn rhyw faes cyn diwedd eu cyfnod ym Mlwyddyn 6. Ni fydd hi'n bosib i blesio pawb.

Cynhelir y rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd ar ddydd Iau, Mawrth 17eg. Mi fydd y beirniad yn dewis tri (fel arfer) o blant i berfformio ar y llwyfan yn yr Eisteddfod a gynhelir eleni yn y Neuadd Fawr ar ddydd Gwener, Mawrth 18fed. Mi fydd yr Eisteddfod Ddawns gyntaf am 1 o'r gloch gyda'r Eisteddfod arferol yn dilyn am 4 o'r gloch.

**Eisteddfod offerynnol** – Ysgol Llwyn yr Eos – Dydd Mercher Mawrth 16eg.

**Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gymryd rhan yn unigol mewn unrhyw gystadleuaeth yn Eisteddfod yr Urdd yna mae'n rhaid i chwi rhoi gwybod i Miss Mared Llwyd, Blwyddyn 5 erbyn dydd Gwener, Chwefror 11eg. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw fanylion sydd yn ymwneud â'r Eisteddfod yna mae croeso i chwi gysylltu â'r ysgol.**

**Gwaith Celf a Chrefft** – Y thema eleni ar gyfer gweithgareddau'r Urdd yw 'Y Fro' am ddiffiniad pellach o'r thema ewch i wefan [urdd.org/eisteddfod](http://urdd.org/eisteddfod). Os ydych yn dymuno cymryd rhan yn y gweithgareddau yna cysylltwch â Miss Buddug Lloyd, Blwyddyn 3 am ragor o fanylion. Mi fydd y gwaith celf yn cael ei farnu ym Mhontrhydfendigaid ar ddydd Llun, Mawrth 7fed. **Mi fydd angen i chwi sicrhau fod unrhyw waith celf yn cyrraedd yr ysgol dim hwyrach na dydd Mawrth, Mawrth 1af.**

**Disgwylir i bawb gymryd rhan yn yr ysbryd cywir a pharchu penderfyniad y beirniad bob amser!**  
**Eisteddfod Sir – Dydd Sadwrn, Mawrth 26ain – Pontrhydfendigaid**  
**Eisteddfod Genedlaethol – Yn ystod gwyliau'r Sulgwyn – Abertawe a'r Fro**



Gwefan  
www.ysgolgymraeg.com

e-bost  
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Dyfarnwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009**  
*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

### EISTEDDFODAU

**School Eisteddfod – March 4th** – During the term we will be preparing for the school and Urdd eisteddfodau. The school eisteddfod will give every child an opportunity to perform as part of a singing and recitation group and also to sing and recite individually in the prelims. The school eisteddfod will also provide opportunities for pupils to take part in art, handwriting, instrumental, literature and project competitions. There will also be a competition for the house choir where all pupils from Arthur, Caradog and Dewi to sing in three different choirs.

The prelims for the individual competitions in the school eisteddfod will be held during the week following half term, instrumental on Tuesday, March 1st and singing and reciting on Wednesday, March 2nd. All pupils will be given the opportunity to take part in the prelims and usually the adjudicator selects one from each team to appear on stage on the day of the eisteddfod. The judge will also select one from each team to be on stand by in case someone will be ill.

**Urdd Eisteddfod** – The school encourages children to take part in the Urdd eisteddfod – Pupils are welcome to compete in homework competition or to perform in various stage activities. As we are aware that not all pupils wish to compete individually we have arranged various choirs and groups to represent the school. When staff choose pupils to be members of the choir, recitation group, dance groups, action song, orchestra and ymgom we will make every effort to ensure fairness for all. Our aim is to ensure that all pupils have a chance to represent the school in some area by the time they finish in Year 6. It will not be possible to please everyone.

The prelims for the Urdd Eisteddfod will be held on Thursday, March 17th. The adjudicator usually selects three competitors to perform in the Eisteddfod which will be held in the Great Hall on Friday, March 18th. The dance eisteddfod will start at 1 o'clock with the usual esiteddfod to follow at 4 o'clock.

**Instrumental Eisteddfod** – Llwyn yr Eos school – Wednesday, March 16th.

**If you wish for your child to take part individually in any competition in the Urdd Eisteddfod then you should inform Miss Mared Llwyd, Year 5 by Friday, February 11th. If you require further information about any details regarding the Urdd Eisteddfod then please contact the school.**

**Art and Craft** - The theme this year for the Urdd activities is 'Y Fro' (locality / district) for a further definition of the theme go to the urdd website [urdd.org/eisteddfod](http://urdd.org/eisteddfod). If you wish to take part then please contact Miss Buddug Lloyd, Year 3 for further details. The art work will be judged at Pontrhydfendigaid on Monday, March 7th. You will need to ensure that any art work arrives at the school no later than Tuesday, March 1st.

**Everyone is expected to take part in the correct spirit and respect the decision of the adjudicator.**

**County Eisteddfod – Saturday, March 26th- Pontrhydfendigaid**

**National Eisteddfod – During the Whitsun holidays – Swansea**

**R C Williams, Headteacher 2/2/11**